Y Rhwydwaith Maethu

# Bwrdd cynghori ar brofiad gofal pobl ifanc cymru

## Pwy ydym?

**Y Rhwydwaith Maethu yw prif elusen faethu'r Deyrnas Unedig, a ddaw â phawb ynghyd sy'n gysylltiedig â bywydau plant a phobl ifanc sy'n cael eu maethu i wneud gofal maeth y gorau un y gall fod. Ein cenhadaeth yw cynorthwyo'r rheiny sy'n maethu, gwella cyfleoedd i blant a phobl ifanc mewn gofal maeth, a darparu arweiniad arbenigol i bob gwasanaeth maethu. Gallwch ganfod mwy o wybodaeth am ein gweithgareddau yn www.thefosteringnetwork.org.uk**

## Y Bwrdd Cynghori

Gwahoddwn fwy o bobl ifanc â phrofiad gofal o bob cwr o Gymru (16 i 25 oed) i ymuno â'n **Bwrdd Cynghori Cenedlaethol ar Brofiad Gofal Pobl Ifanc**.

Rydym wedi'n hymrwymo i sicrhau bod pobl ifanc yn tywys ein gwaith a'u bod yn gallu rhannu'u profiad o fywyd i wella gofal maeth i bawb; ac mae'r Bwrdd Cynghori ar Brofiad Gofal Pobl Ifanc yn ffordd ardderchog o wneud hyn!



## Beth mae'r bwrdd cynghori yn ei wneud?

Mae'r grŵp yn arwain ar ddatblygu'n cylchgrawn i bobl ifanc – **Ffynnu** – ac yn cyfrannu tuag at ymchwil, mae'n cymryd rhan mewn ymgyrchoedd, mae'n cynorthwyo'n gweithgareddau yn y cyfryngau, ac mae'n rhannu'u harbenigedd i hysbysu darnau eraill o waith.

Mae arnom eisiau gwybod am brofiad pobl ifanc o ofal a beth sy'n bwysig iddyn' nhw. O hyn, byddwn yn helpu'r gymuned faethu i gynorthwyo pobl ifanc i ffynnu!

## Beth yw'r ymrwymiad?

Bydd y grŵp yn cyfarfod ar-lein oddeutu chwe gwaith y flwyddyn, a bydd pob cyfarfod yn para oddeutu 1.5 awr. Byddwn hefyd mewn cysylltiad rhwng cyfarfodydd i'ch diweddaru'n rheolaidd am amrywiol weithgareddau a chyfleoedd efallai y byddwch yn dymuno cymryd rhan ynddynt.

## Pam y dylwn i gymryd rhan?

- Datblygu sgiliau a gwybodaeth;
- Magu hyder;
- Mwynhau amser i gyfarfod a sgwrsio â phobl ifanc eraill;
- Cyfarfod â sefydliadau diddorol;
- Ein helpu i wneud gofal maeth y gorau un y gall fod!

## A yw'n gyfle â thâl?

Fel rôl wirfoddol, ni chewch eich talu i fod yn aelod o Fwrdd. Fodd bynnag, fel diolch am eich amser a'ch cyfraniad, darperir taleb ichi pan ydych yn mynychu ac yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd ar-lein ac yn cyfrannu tuag at ddarnau eraill o waith.

## Cytundeb grŵp ar-lein

Mae'n ofynnol i holl aelodau'r Bwrdd ddilyn ac ymrwymo i 'gytundeb y grŵp ar-lein' fydd yn amlinellu cyfrifoldebau aelodau'r Bwrdd a'r Rhwydwaith Maethu yng Nghymru. Datblygwyd y cod ymddygiad hwn gan y bobl ifanc yn y grŵp, ac fe'i hadolygir ar ddechrau pob cyfarfod.

# Sut y gallaf gymryd rthan?

Os hoffech gymryd rhan ac ymuno â'r Bwrdd Cynghori ar Brofiad Gofal Pobl Ifanc, gallwch gwblhau'r **ffurflen ar-lein** gyflym hon i ddarparu gwybodaeth gyffredinol inni amdanoch eich hun.



Os oes gennych unrhyw gwestiynau yr hoffech eu gofyn cyn mynegi'ch diddordeb, gallwch anfon e-bost at **charlotte.wooders@fostering.net** sy'n fwy na bodlon siarad â chi.

## Beth sydd nesaf?

Unwaith y byddwch wedi cwblhau'r ffurflen ar-lein, bydd Charlotte Wooders, rheolwr y prosiect, yn cysylltu â chi, a bydd hi'n trefnu ac yn gwneud eich **galwad croeso un-i-un ar-lein**. Bydd hyn yn para oddeutu 20-30 munud a bydd yn rhoi'r cyfle ichi ganfod mwy o wybodaeth am y bwrdd cynghori a pha weithgareddau rydym wedi'u cynllunio am y flwyddyn. Gwahoddir chi wedyn i fynychu'ch cyfarfod neu'ch gweithdy cyntaf.


**Manylion cysylitu**

**I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Charlotte Wooders, rheolwr y prosiect, ar charlotte.wooders@fostering.net, os gwelwch yn dda.**